

Cynhyrchydd y Prosiect Cartref a Chynefin (Prifysgolion Aberystwyth, Bangor ac Abertawe)

GALWAD AM BOBL I FYNEGI DIDDORDEB

Crynodeb o'r Prosiect

Prosiect celfyddydol aml-genhedlaethol, aml-ieithog yw Cartref a Chynefin a grewyd ar y cyd mewn partneriaeth gyda Chelfyddydau Pontio (Prifysgol Bangor), Canolfan Gelfyddydol Taliesin (Prifysgol Abertawe) a Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth (Prifysgol Aberystwyth), sy'n anelu at ddod ag aelodau'r gymuned, myfyrwyr a gweithwyr creadigol at ei gilydd. Bydd y gwaith ar draws cymunedau yng Nghanolbarth Cymru, Gwynedd ac Abertawe a'r cyffiniau. Bydd y prosiect yn archwilio diwylliant, hunaniaeth a dinasyddiaeth. Trwy broses o weithdai ar draws disgyblaethau artistig, daw cyfranogwyr (myfyrwyr, staff ac aelodau'r gymuned) at ei gilydd i gyfnewid syniadau mewn cysylltiad â'r thema 'Cartref a Chynefin a all arwain at ddigwyddiad celfyddydol y gellir ei gyflwyno i gynulleidfaedd mewn amryw o ffyrdd.

Cartref: o ble y mae rhywun yn dod?; neu'r lle y mae person yn teimlo ei fod yn perthyn

Cynefin: y wlad tu hwnt; yr anhysbys; yr hyn a fu sy'n perthyn

Bydd y prosiect yn edrych tuag at ddyfodol newydd, ar ôl y pandemig, ar ôl Brexit, wrth chwilio am y 'normal newydd'. Byddwn yn anelu at weithio ar draws amryw o grwpiau gan gynnwys rhai rhai nad ydynt efallai yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol yn rheolaidd neu sy'n arbennig o fregus e.e. ffoaduron neu'r sawl sy'n chwilio am loches wleidyddol; bydd hyn yn cynnig perspectif diddorol a phenodol i'r thema Cartref a Chynefin.

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ein gallu i wireddu gweithgareddau diwylliannol. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni ystyried ffyrdd newydd o weithio, a ffyrdd newydd o sicrhau bod unigolion yn medru ymwneud a gweithgaredd celfyddydol. Rydym yn ymrwymo i gyd-weithio mewn ffyrdd uchelgeisiol i sicrhau y medrwn gefnogi ein cymunedau ar adeg sy'n arbennig o heriol i bawb. Bydd y prosiect yn gweithio yn unol ag egwyddorion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, ac fe'i wireddir o fewn amodau cyfyngiadau COVID-19.

'Rydym yn ymrwymo i ddatblygu ac hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb ar draws ein hymarfer. 'Rydym yn anelu at weithio, astudio a darparu diwylliant cynhwysol, heb unrhyw anffafiaeth, a chynnal gwerthoedd parch, urddas a chwarteisi. Mae gan bawb yr hawl i gael ei drin yn unol â'r gwerthoedd hyn. 'Rydym yn ymrwymedig at hybu cydraddoldeb mewn cysylltiad ag oedran, anabledd, rhyw a

chyfeiriadedd rhywiol, ailgyfeiriad rhyw, hil, crefydd a chred (gan gynnwys diffyg cred), priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, ac i godi ymwybyddiaeth rhwng ac ar draws wahanol grwpiau.

Disgwylir y bydd cynhyrhydd y prosiect:

- yn meddu ar gefndir profiadol o weithio gydag aelodau'r cyhoedd mewn gweithgareddau celfyddydol cynhwysol yn unol â gweledigaeth artistig clir a chyson
- yn gyfrifol am wireddu'r prosiect yn ei gyfanrwydd fel y cytunwyd gan Fwrdd Rheoli'r Prosiect ac yn cydymffurio â chyfyngiadau COVID-19 Llywodraeth Cymru
- gyda phrofiad o drefnu ac hybu digwyddiadau celfyddydol, boed rheini yn ddigwyddiadau ffurfiol neu anffurfiol
- yn meddu ar ddealltwriaeth o'r gwahanol ddiwylliannau a ieithoedd sy'n y Gymru gyfoes, ac hefyd dealltwriaeth clir o darged Cymraeg:2050 Llywodraeth Cymru i gyflawni 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg, a sut y bydd hyn yn dylanwadu ar y prosiect
- yn gyfrifol am gyfathrebu'n glir i'r holl bartïon perthnasol holl anghenion y prosiect er mwyn sicrhau y trefnir y prosiect yn effeithiol
- yn gweithio'n agos gydag Prif Artist y prosiect i ddatblygu a gwireddu y weledigaeth
- yn sicrhau y darperir deunydd hysbysebu ar gyfer cymunedau lleol a thimoedd Marchnata'r Brifysgol / Ganolfan Gelfyddydol er mwyn eu galluogi i hybu'r gweithgareddau. Byddai dawn ysgrifenu yn fanteisiol gan y gallai'r gwaith gynnwys diweddarau blog y prosiect a darparu deunydd ar gyfer cyfryngau cymdeithasol
- yn sicrhau bod prosesau yn eu lle i ddenu artistiaid proffesiynol ac i gasglu'r holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i godi cytundebau
- yn sicrhau bod yr holl brosesau cyllidol yn eu lle yn nhermau incwm a gwariant: paratoi anfonebau, talu ymarferwyr, talu am ddeunyddiau, hurio gofod a.y.y.b ac yn cadw cofnodion er mwyn sicrhau y gellir adrodd ar gyllideb y prosiect yn fanwl ac yn gywir
- yn mynychu cyfarfodydd gyda grwpiau/mudiadau allanol, adrannau mewnol y Brifysgol a chyrff proffesiynol
- yn medru ar y ddawn i ddatrys problemau yn annibynol
- yn cydlynu cyfarfodydd a rheoli amserlenni aelodau tîm y prosiect ac eraill fel bo'n addas
- yn dal yswiriant atebolrwydd cyhoeddus

- yn gweithio mewn modd diogel a phroffesiynol i gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol, ac yn darparu asesiadau risg yn unol â pholisïau Iechyd a Diogelwch y mudiadau cyn ymgymryd â gweithgareddau
 - yn dilyn polisïau a gweithdrefnau diogelu'r mudiadau
- **FFI'R CYNHYRCHYDD** - £10,000 (yn cynnwys TAW)
 - **CYFNOD Y PROSIECT** - Ebrill 2021 - Mawrth 2022
 - **DYDDIADAU GWIREDDU'R PROSIECT** - Medi 2021 - Chwefror 2022
 - **DYDDIAD CAU I FYNEGI DIDDORDEB** - Canol dydd, Dydd Llun 15 Mawrth 2021

MYNEGI DIDDORDEB

'Rydym yn galw am fynegiadau o ddiddordeb gan artistiaid/cynhyrchwyr gyda chefnidir cryf yn y celfyddydau cyfranogol. Dylai'r cais gynnwys llythyr cyflwyno, CV, a dolen i wefannau gydag enghreifftiau o'ch gwaith.

Dylid e-bostio atrstaff@aber.ac.uk erbyn canol dydd, Dydd Llun 15 Mawrth 2021. Bydd rhestr fer o ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i baratoi cynnig manwl ar gyfer y prosiect, i'w gyflwyno i'n Bwrdd Rheoli yn mis Ebrill - dyddiad i'w gadarnhau.

CYFEIRIAD CYSWLLT

Anfonwch ymholiadau os gwelwch yn dda at Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth atrstaff@aber.ac.uk